

Prosiect Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (P.E.S.S) yn Ariannu Hyfforddiant mewn Addysg Gorfforol yn holl ysgolion y Fro

Ers ei sefydlu yn 2002, mae Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (P.E.S.S), menter a ariennir gan y Cynulliad Cenedlaethol, wedi buddsoddi miliynau ledled Cymru i sefydlu Canolfannau Datblygu ym mhob awdurdod lleol gyda'r nod o godi safonau addysgu a dysgu yn y cwricwlwm Addysg Gorfforol.

Trwy gydgylltydd PESS y Fro, Lesley Dancey, mae gan bob ysgol gynradd ac uwchradd gyfle i fod yn rhan o Ganolfan Datblygu P.E.S.S a ariennir erbyn mis Ionawr 2010. Partneriaeth yw Canolfan Ddatblygu o ysgolion uwchradd, yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo a phartneriaid eraill sy'n ymroddedig i godi safonau disgyblion mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion.

Yn y Fro, sefydlwyd pum canolfan a ariennir sy'n cynnwys ysgolion cyfun Llanilltud Fawr, y Bont-faen, Bro Morgannwg, St Cyres a St Richard Gwyn. Mae gan athrawon yn y canolfannau hyn fynediad at gyfleoedd datblygiad profesiynol parhaus o ansawdd uchel mewn Addysg Gorfforol trwy ddiwrnodau hyfforddiant, adnoddau, sesiynau staff gyda'r hwyr, mentoriaeth i athrawon gyda'u dosbarthiadau eu hunain o ddisgyblion a gweithgornau i ddatblygu agweddau ar y cwricwlwm Addysg Gorfforol, y cwbl o ansawdd uchel.

Yn ystod tymor y gwanwyn, gwahoddwyd ysgolion cyfun y Barri, Bryn Hafren a Stanwell i ddiwrnod gwybodaeth gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo er mwyn darganfod mwy am P.E.S.S. Roedd rhan o'r diwrnod hwn yn canolbwyntio ar hunanwerthusiad o weithgarwch Addysg Gorfforol i nodi arferion da cyfredol yn ysgolion y Fro a meysydd posibl i'w datblygu gyda chyllid drwy'r prosiect. Roedd y diwrnod gwybodaeth AM DDIM i ysgolion ac roedd cyllid ychwanegol ar gael drwy'r prosiect i ryddhau athrawon i fynychu.

Meddai'r **Cydgysylltydd P.E.S.S, Lesley Dancey:**

"Cafwyd ymateb da iawn i'r diwrnod a mynychodd dros 88% o ysgolion y Fro. Roedd athrawon yn awyddus iawn ac yn hynod frwdfrydig am gymryd rhan yn y prosiect cyffrous hwn."

Meddai'r **Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Jane Hutt** am y Prosiect P.E.S.S:

"Mae chwaraeon o ansawdd gwell mewn ysgolion yn rhoi cyfle gwych i bobl ifanc gael cychwyn iachus i'w bywydau, ac fel mae'r adroddiad (Estyn 2008) yn ei gadarnhau, mae hyn yn sicrhau llawer iawn o effeithiau cadarnhaol eraill, ar ymddygiad ac agwedd disgyblion er enghraifft. Mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu ar lwyddiant y fenter P.E.S.S er mwyn sicrhau fod cenedlaethau'r dyfodol yn ymwybodol o'r manteision ac yn mynd yn eu blaenau i fyw bywydau iach a gweithgar."

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Prosiect Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion, cysylltwch â:

Lesley Dancey

Cydgysylltydd Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion
01446 709735

ldancey@valeofglamorgan.gov.uk



Codi Safonau – Ehangu Cyfleoedd

Llwyddiant *Catch Up Numeracy!*

Mae ysgolion Bro Morgannwg yn sicrhau canlyniadau rhagorol o ran cynnwys disgyblion mewn gwaith mathemateg a chodi cyrhaeddiad disgyblion yn y pwnc, oherwydd ymyrraeth newydd o'r enw *Catch Up Numeracy*. Rhaglen ymyrraeth un-i-un yw *Catch Up Numeracy* sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n cael trafferth gyda rhifedd. Cymerodd chwech o ysgolion y Fro ran yn natblygiad y rhaglen a chymerodd ddwy ysgol bellach ran yn ail gam y cynllun peilot.

Cynhaliwyd lansiad *Catch Up Numeracy* yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2008, cyn y lansiad yn Llundain. Ers hynny, cynhaliwyd pedwar digwyddiad hyfforddi yn y Fro ar gyfer staff addysgu a Chynorthwyr Cymorth Dysgu, sydd bellach yn darparu'r rhaglen yn ein hysgolion. Hyd yn hyn, mae gan 42 o ysgolion, yn cynnwys dwy ysgol arbennig ac un ysgol uwchradd, aelodau staff sydd wedi'u hyfforddi yn y rhaglen, ac mae gan sawl ysgol ddau aelod o staff neu fwy sy'n darparu *Catch Up Numeracy*.

Mae'r canlyniadau cychwynnol wedi bod yn hynod gadarnhaol, ac mae disgyblion wedi sicrhau enillion o rhwng 6 a 24 mis i'w hoeddrannau mathemateg dros gyfnod o 4 i 5 mis. Mae adborth gan aelodau staff yn dynodi hyder cynyddol ac agweddau cadarnhaol tuag at fathemateg gan y disgyblion. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r sesiynau un-i-un 15 munud, a gynhelir ddwywaith yr wythnos ac sy'n llafar ac yn ymarferol eu natur, yn arw. Mae athrawon dosbarth wedi dweud hefyd bod yr hyder a fagwyd gan y disgyblion sydd wedi cymryd rhan hefyd wedi arwain at fwy o barodryddi i gymryd rhan yng ngwersi'r dosbarth. Fel y dywedodd un aelod o staff,

"Rydym wedi rhoi 'llais mathemateg' i'n plant o'r diwedd."

Kath John

Cynghorydd Cyswilt – Rhifedd

Ffôn: 01446 709862 • e-bost: KMJohn@valeofglamorgan.gov.uk

Sgwad 'Sgwennu – sesiwn Tymor y Gwanwyn

Cynhaliwyd sesiwn Sgwad 'Sgwennu'r gwanwyn yn Ysgol Gynradd Saint-y-brid ar 25 Mawrth. Llauer o ddiolch i bawb yn Saint-y-brid am eu croeso. Mynychodd 27 o blant o ysgolion o bob cwr o'r Fro.

Gweithiodd y plant gyda'r bardd Kate Williams, gan gynhyrchu llawer o gerddi cyffrous yn seiliedig ar y thema o fywyd yn y goedwig. Trafododd Kate nifer o wahanol ffurfiau o farddoniaeth a chafodd y plant llawer o hwyl yn gwella eu gwaith ysgrifennu ac yn gweithio gyda'u cyd-ddisgyblion.

Bydd y sesiwn nesaf yn cael ei chynnal yn Amgueddfa Werin Cymru ar 17 Mehefin, gyda'r awdur a hanesydd lleol Phil Carradice.



Barry Island Primary School.



St Illtyd Primary School.



Peterston-Super-Ely Church in Wales Primary School.



St Andrew's Major Church in Wales Primary School.

Cystadleuaeth Llyfrau Cymru – Rownd Sirol

Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Ysgol Gynradd St Illtyd yn Llanilltud Fawr ddydd Mercher 1 Ebrill.

Llauer o ddiolch i'r pennaeth Alun Smith a'i dîm o athrawon am eu croeso.

Cymerodd bedair ysgol ran, a'r athrawes Sarah Jones a'r llyfrgellydd Gill Southby oedd y beirniaid. Cafodd y plant ei diddanu gan straeon doniol yr awdures Francesca Kay am foch cwta, mwydod a sanau ar goll!

Bu'n rhaid i'r plant drafod a chymharu eu sylwadau ar lyfrau dethol o Gymru a chyflwyno dramodiad o lyfr arall o Gymru. Roedd y safon yn arbennig o uchel

a bu'n gryn benbleth i'r beirniaid ddewis y buddugwr. Da iawn i bawb a gymerodd ran.

Llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Sain Andras a fydd yn mynd yn ei blaen i'r rownd Genedlaethol i'w chynnal yn Theatr Brycheiniog yn Aberhonddu ar 19 Mehefin.

Susan Sibert

Cynghorydd Cyswilt – Llythrennedd

Ffôn: 01446 709340

e-bost: SSibert@valeofglamorgan.gov.uk